

Redwick i Portskewett


Amdiffynfeydd presennol a'r tebygolrwydd o lifogydd

Mae'r amdiffynfeydd môr presennol yn diogelu tir amaethyddol a phentrefi ar Wastatir Caldicott. Mae gan y rhan fwyaf o eiddo berygl llifogydd llanw o 1 siawns mewn 200 neu lai mewn unrhyw flwyddyn.

Bydd perygl llifogydd yn cynyddu wrth i lefelau'r môr godi ac wrth i stormydd waethygu.

Argloddiau pridd yw'r amdiffynfeydd fel arfer, gyda diogelwch concriid neu garreg yn aml.

Yn Portland Grounds mae darn is o arglawdd sydd â pherygl uwch o lifogydd llanw lleol.



Beth ellir ei wneud?

Byddwn yn parhau i gynnal yr amryw amdiffynfeydd dros y 100 mlynedd nesaf.

Bydd yr amdiffynfeydd yn cael eu gwella mewn cyfnodau er mwyn cadw'n wastad â newid hinsawdd, yn gyffredin ag amdiffynfeydd cyfagos ar y rhan hon o'r arfordir. Mae'n debygol y bydd hyn angen amdiffynfeydd meini neu ddiogelwch concriid lle nad yw hynny'n bodol'n barod.

Ein bwriad yw gwneud gwelliannau i'r amdiffynfa yn Portland Grounds yn y 5-10 mlynedd nesaf, er mwyn cysoni'r safon o ddiogelwch gyda rhannau cyfagos o'r lan.

Nodyn ar godiad yn lefel y môr

Mae senario allyriadau canolig UKCP09 yn rhagweld codiad yn lefel y môr o 0.1m erbyn 2030, tua 0.3m erbyn 2060 a 0.7m erbyn 2110.

Ar hyn o bryd mae lefel y môr yn codi rhyw 2 i 2.5mm y flwyddyn. Os bydd y gyfradd hon yn parhau yna byddai codiad yn lefel y môr yn llai na'r hyn a ragamcanwyd gan y senario allyriadau canolig UKCP09.

Sut y penderfynwyd ar y cynigion hyn

Mae achos economaidd gref dros gynnal a gwella'r amdiffynfeydd presennol oherwydd y nifer uchel o eiddo a seilwaith a ddiogelir. Nid yw ailadeiladu'r amdiffynfeydd ymellach i mewn i'r tir yn opsiwn rhatach ar gyfer y dyfodol agos.

Allwedd



Amdiffynfeydd presennol a gyfeirir atynt yn y ddogfen